At sylw Gweinidogion Cymru,

**Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 hyd at 31/03/2021**

Yn unol â'r dyletswyddau dan adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gweler isod adroddiad blynyddol **Bro Morgannwg** ar gyfer **2020-21**.

<table>
<tr>
<td>Y camau wedi’u cymryd i hyrwyddo teithio llesol</td>
<td>



Derbyniodd pob Ysgol Gynradd yn y Fro 2 feic cydbwyso ychwanegol a helmedau i'w defnyddio mewn ysgolion i annog ymddygiad beicio cadarnhaol cynnar.

Rhoddwyd beiciau i ysgolion y nodwyd eu bod mewn 'ardaloedd difreintiedig' i alluogi disgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 i ddilyn Hyfforddiant Hyfedredd Beicio (48 beic ar draws 12 ysgol). Rhoddir cynwysyddion storio yn 2021 er mwyn storio’r beiciau’n ddiogel.

Rhoddwyd cyfleusterau storio sgwteri i 16 ysgol a rhoddwyd cyfleusterau storio beiciau i 7 ysgol yn y Fro.



*Ysgol Gynradd Sili*




Cafodd Mapiau Teithio Llesol a luniwyd gan 8 ysgol yn y Fro eu hargraffu a'u dosbarthu i ysgolion.
</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | Gwnaed gwelliannau i'r droedffordd mewn gwahanol leoliadau yn y Fro gan gynnwys cyrbau isel, palmentydd botymog ac ehangu'r droedffordd.<br><br>Mae'r Cyngor yn parhau’n weithgar o fewn Grŵp Siarter Staff Iach y Fro, gan weithio gyda'i bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.<br><br>Ym mis Tachwedd 2020 lansiodd y Cyngor gynllun llogi e-feiciau ar y cyd ag OVObike (nextbike gynt) ym Mhenarth gan osod 6 gorsaf ddocio. Dechreuwyd gwaith i ddylunio gorsaf ddocio ar gyfer Sili a chaiff yr orsaf ei gosod ym mlwyddyn ariannol 21/22 ynghyd â gorsaf ddocio yn Ninas Powys.<br><br><br>Mae'r Cyngor wedi lansio gwefan newydd i hyrwyddo cynlluniau Teithio Llesol a ariennir ac mae'n parhau i hyrwyddo drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/Transportation/Active-Travel-and-Safe-Routes-in-Communities-Projects.aspx<br><br>Mae'r Cyngor yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gydag Awdurdodau Lleol eraill, Llywodraeth Cymru, Sustrans ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn rhannu arfer da a gwybodaeth. Rydym yn cynnal 6 chyfarfod wythnosol rheolaidd gyda'n Swyddog Sustrans a ariennir gan Lywodraeth Cymru i drafod prosiectau cyfredol a rhai’r dyfodol.<br><br>Mae'r Cyngor yn cynnig Hyfforddiant Beicio Safonol Cenedlaethol Lefel 1 a Lefel 2 i'w holl ysgolion cynradd. Oherwydd Covid-19, ni chymerodd ysgolion ran yn yr hyfforddiant y flwyddyn academaidd hon.<br><br>Effeithiodd Covid-19 ar Hyfforddiant Kerbcraft a Hyfforddiant i Gerddwyr Ifanc hefyd. Ni chymerodd unrhyw blant ran yn y rhaglenni hyfforddiant hyn a chafodd yr hyfforddwr Cerddwyr Ifanc ei secondio i’r adran Tracio ac Olrhain. |
| Y camau a gymerwyd er mwyn sicrhau llwybrau teithio llesol diogel a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig. | Disgwylir i bob cynllun datblygu newydd ym Mro Morgannwg gynnig seilwaith Teithio Llesol ac mae swyddogion yn gwneud sylwadau ar yr holl gynlluniau teithio sy'n cael eu danfon drwy'r Broses Gynllunio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. |

| | |
|---|---|
| | Disgwylir i bob datblygiad gynnig seilwaith Teithio Llesol naill ai drwy waith priffyrdd Adrannau 278/38 a/neu arian Adran 106. Yn 20/21 dechreuodd datblygwr tai’r gwaith adeiladu ar gyfleuster defnydd a rennir ger The Gathering Place yn Sain Tathan a fydd yn cysylltu â'r droedffordd/llwybr beicio a rennir sy'n cael ei adeiladu gan y Cyngor yn 21/22 sy'n cysylltu â phentref Sain Tathan. Yn ogystal, yn 21/22 rhoddwyd y tir ar hyd ffin Bro Tathan yn Sain Tathan yn lle arian A106 i alluogi dilyniant llwybr teithio llesol drwy Eglwys Brewys. Caiff y llwybr a ddewiswyd drwy ymgynghori â'r cyhoedd ei gynllunio, a cheisir arian i barhau ym mlwyddyn ariannol 22/23. Byddai hyn yn creu llwybr teithio llesol o Sain Tathan i gyrion Llanilltud Fawr.<br><br>Defnyddiwyd y Gronfa Dyrannu Teithio Llesol Graidd er mwyn gwella llwybrau Teithio Llesol (cyrbau isel, palmentydd botymog) a rhoi llochesi beiciau a beiciau cydbwyso i ysgolion. |
| Costau yr aethpwyd atynt ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol cyfredol a chyfleusterau cysylltiedig a gafodd eu gwneud yn y flwyddyn ariannol llawn flaenorol | Derbyniwyd £221,000 o arian Trafnidiaeth Gynaliadwy mewn ymateb i COVID-19 ym mis Gorffennaf 2020 i helpu i sicrhau y cedwir at fesurau ymbellhau cymdeithasol yng nghanol trefi ac o amgylch gatiau ysgolion. Defnyddiwyd yr arian hwn i greu mannau parcio beiciau yng nghanol trefi; conau a rhwystrau i atal parcio wrth gatiau ysgolion; mannau parcio sgwteri mewn ysgolion; arwyddion i atal parcio wrth ysgolion.<br><br><br><br><br><br>Blwyddyn Ariannol 20/21 £410,000 (Teithio Llesol Craidd Llywodraeth Cymru) ar gyfer y Cynllun Llogi Beiciau – rhoddwyd yr arian hwn i ehangu'r cynllun llogi beiciau trydan i Sili. Bydd cyfleoedd eraill ar gyfer gorsafoedd a chynlluniau yn parhau i gael eu hystyried yn yr ALl. Defnyddiwyd y grant hwn hefyd ar gyfer dylunio llwybrau teithio llesol rhwng Waycock Cross a Maes Awyr Caerdydd a gwaith dichonoldeb a dylunio cysyniadau ar gyfer Cardiff Road, y Barri; Llanmaes Road, Llanilltud Fawr a Llantwit Major Road, y Bont-faen. Yn ogystal â rhoi 100 o feiciau cydbwyso, helmedau a chyfleusterau storio beiciau ychwanegol i ysgolion.<br><br>Blwyddyn ariannol 20/21 £43,843 (Llwybrau Diogel mewn Cymunedau Llywodraeth Cymru) ar gyfer dyluniadau manwl i greu 1km o lwybr beicio/troedffordd a rennir a £143,850 (trafnidiaeth |

| | |
|---|---|
| | gynaliadwy A106) ar gyfer Cynllun Teithio Llesol Sain Tathan i osod cyrbau isel a phalmentydd botymog – Rhoddwyd arian Teithio Llesol Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith adeiladu ym mlwyddyn ariannol 21/22 |

Yn ogystal â'r uchod (dewisol):

| | |
|---|---|
| Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig wedi'u hariannu neu a ariennir yn rhannol gan drydydd partïon. | Blwyddyn ariannol 21/22 £635,000 (Teithio Llesol Craidd Llywodraeth Cymru)<br>• Lanlwytho mapiau i DataMapWales<br>• Dylunio llwybr teithio llesol yn fanwl - Cardiff Road, Y Barri<br>• Dylunio llwybr teithio llesol yn fanwl - Llanmaes Road<br>• Dylunio llwybr teithio llesol yn fanwl rhwng Waycock Cross â Maes Awyr Caerdydd<br>• Gwaith ymchwilio ar gyfer llwybr teithio llesol - rhwng Biglis a Dinas Powys<br>• Dylunio a dichonoldeb llwybr teithio llesol gwell rhwng Sili a Cosmeston<br>• Dylunio a dichonoldeb llwybr teithio llesol drwy Eglwys Brewys<br>• Cyfleusterau storio beiciau yn nhrefi, pentrefi ac ysgolion<br>• Gwelliannau MRhTLl (cyrbau isel a phalmentydd botymog)<br>• Gorsaf ddocio e-feiciau Dinas Powys<br><br>Blwyddyn ariannol 21/22 - Cronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau – £611,000 ar gyfer Prosiect Dylunio Cymunedol Ysgol Gynradd Fairfield. Derbyniwyd yr arian hwn i wella strydoedd o amgylch yr ysgol i annog teithio llesol a lleihau tagfeydd ar y strydoedd cyfagos.<br><br>Blwyddyn ariannol 21/22 - Cronfa Teithio Llesol – £1,061,600 ar gyfer Teithio Llesol yn Sain Tathan. Cyfleuster defnydd a rennir i'w adeiladu ym mlwyddyn ariannol 21/22 gan wella symudiadau cerddwyr a beicwyr rhwng pentref Sain Tathan ac Eglwys Brewys.<br><br>Blwyddyn ariannol 21/22 - Rhoddwyd arian Iechyd Ataliol Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynorthwyo ysgolion i ddatblygu cynlluniau Teithio Llesol ysgolion (£12k), a rhoddwyd £10k i gyflawni cynllun cerdded unwaith yr wythnos Living Streets ar gyfer 20 ysgol a rhoddwyd arian canol y flwyddyn i osod gorsafoedd pwmpio/atgyweirio beiciau ledled y Fro (£30k).<br><br>Mae arian trafnidiaeth gynaliadwy A106 ar gael yn Sili a'r Barri i alluogi gwelliannau teithio llesol. Bydd y gwaith o |

| | |
|---|---|
| | adeiladu llwybr beicio/troedffordd a rennir yn y Rhws yn dechrau gaeaf 2021. |
| Hyd y llwybrau newydd:<br><br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Defnydd a Rennir | dd/b |
| Hyd y llwybrau gwell:<br><br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Defnydd a Rennir | Arian trafnidiaeth gynaliadwy A106 - Gwelliannau i gerddwyr yn Sain Tathan (cyrbau isel a phalmentydd botymog) - 340 metr<br><br>Arian trafnidiaeth gynaliadwy A106 - Gwelliannau i gerddwyr (cyrbau isel a phalmentydd botymog) - Murch Road - 170 metr<br><br>Gwyrddio, Tyfu, Cysylltu - Y Barri - gwelliannau i gerddwyr - 170 metr |
| Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell | Blwyddyn ariannol 20/21 - Rhoddwyd cyfleusterau storio sgwteri i 16 ysgol a rhoddwyd cyfleusterau storio beiciau i 7 ysgol yn y Fro (Cronfa Teithio Llesol Graidd)<br><br><br>*Ysgol Gynradd Gladstone*<br><br>Talodd arian adfer canol trefi am gyfleusterau storio ychwanegol ar Heol Holltwn, Y Barri. Talodd hefyd am waith gosod croesfan dros dro ar Windsor Road, Penarth, a brofodd yn llwyddiannus ac sy'n cael ei ystyried yn nodwedd barhaol ar gyfer Canol Tref Penarth. |

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

| |
|---|
| Hydref 2021 - Bydd y Cyngor yn lansio cam 2 y cynllun Beicio i Waith ar gyfer gweithwyr sy'n caniatáu prynu beiciau hyd at £3500. |

| |
|---|
| Derbyniwyd arian Teithio Llesol Craidd yn 21/22 i osod gorsaf ddocio e-feiciau yn Ninas Powys. Dyhead arall yw ehangu'r cynllun llogi i'r Barri.<br><br>Mae cyfarfodydd chwarterol Bwrdd Trafnidiaeth Strategol Bro Morgannwg yn sicrhau bod pob adran o fewn y Cyngor yn ymwybodol o gynlluniau teithio llesol i sicrhau cydweithio rhwng adrannau.<br><br>Mae ceisiadau am grant drwy’r Gronfa Trafnidiaeth Leol, Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, Metro, Bargen Dinas Caerdydd ac ati i gyd yn cynnwys cynigion Teithio Llesol er mwyn galluogi'r Cyngor i wneud y gorau o bob llwybr ariannu sydd ar gael. |

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar-lein a'i fod ar gael ar ffurf copi caled ar gais, yn unol â'r Canllawiau Cyflawni statudol.

| | |
|---|---|
| Llofnod y Prif Weithredwr: |  |
| Enw’r Prif Weithredwr: | Robert Thomas |